



Noson Agored CA4 – Cwestiynau ac Atebion 28.01.21 KS4 Open Evening – Questions and Answers

Oes modd trafod gydag athrawon pwnc penodol cyn gwneud dewis rhydd

Oes – mae hwn yn syniad da iawn. Awgrymw'n i chi gysylltu gyda'r athrawon perthnasol gan ddefnyddio eich cyfrif Google. Os nad ydych yn siŵr pwy sy'n gyfrifol am bwnc penodol, trafodwch gyda'ch tiwtor dosbarth.

Mae gen i swydd benodol mewn golwg sut ydw i'n gwybod pa bynciau sydd mwyaf addas?

Trafodwch gyda'ch rhieni ac athrawon. Mae hefyd gwybodaeth defnyddiol ar gael drwy wefan [Gyrfa Cymru](#). Mae ardal benodol o dan **Cyrsiau ac Hyfforddiant** sy'n rhoi cyngor am ddewisiadau blwyddyn 9.

Oes dyddiad terfyn ar y cyrsiau BTEC?

Yn anffodus mae rhai o'r cymwysterau BTEC yn dod i ben ond rydym yn cydweithio'n agos gyda Cymwysterau Cymru a'r byrddau arholi er mwyn derbyn y wybodaeth mwyaf diweddar. Mae rhai cymwysterau yn cael eu disodli gan rai tebyg a rydym yn parhau i ymchwilio i bob opsiwn posib er mwyn cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i'n dysgwyr. Byddwn yn parhau i gyrchu barn dysgwyr ar draws pob un o'r pynciau gan drafod gyda'r unigolion perthnasol lle bo'r angen yn codi.

Sut bydd y dysgwyr yn cael gwybod am eu dosbarthiadau Iaith / Llenyddiaeth a Gwyddoniaeth.

Mae'r wybodaeth am ddosbarthiadau blwyddyn 10 yn mynd at ddysgwyr a'u rhieni yn ystod tymor yr Haf.

Will I be able to speak to subject teachers before making my free choice

Yes – and it's a good idea to do so. We suggest that you contact the relevant teachers through Google. If you are unsure which teacher is associated with the subject, please ask your form tutor.

I have a particular job in mind, how do I know which subject will be most relevant to me?

It's important to discuss your choices with parents and teachers. There is also useful information on the [Careers Wales](#) website. Within the **Careers and Training** area there is specific advice for learners in year 9.


Is there an expiry date on BTEC courses.

Unfortunately, some of the BTEC courses are coming to an end however we are working closely with Qualifications Wales and the exam boards to ensure we have the most up to date information. Some of the qualifications will be replaced with similar courses and we continue to research all available options to ensure a varied and well-balanced curriculum is available to our learners. We continue to collect choices based on all subject and will discuss options with individuals as more information reaches us.

How will learners informed about their classes for Language/ Literature and Science

The information in regards to year 10 classes will be shared with learners and their parents in the Summer term.

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .





Noson Agored CA4 – Cwestiynau ac Atebion 28.01.21 KS4 Open Evening – Questions and Answers

Nid oes mynediad gen i i'r ffurflen dewis rhydd

Yn dilyn y cyflwyniad Saesneg agorwyd y ffurflen i dderbyn ymatebion gan ddysgwyr. Mae angen i'r dysgwr mewngofnodi i'w cyfrif ysgol er mwyn gallu cael mynediad.

Beth os rwy'n dewis rhywbeth nad wyf yn ei hoffi?

Rydym yn cynnal trafodaethau gyda dysgwyr yn nhymor yr Haf er mwyn sicrhau eu bod yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am y pynciau i'w hastudio. Wrth drafod gydag athrawon pwnc bydd dysgwyr yn derbyn y wybodaeth am gynnwys y cyrsiau a'r fath o weithgareddau sy'n cael eu cynnwys ac felly hyderwn bod y mwyafrif helaeth yn hapus gyda'i dewisiadau erbyn mis Medi.

Sawl pwnc sy'n rhaid imi ei ddewis?

Yn ogystal â'r rhaglen gradd disgwylir i ddysgwyr ddewis 3 pwnc opsiwn i'w hastudio yn CA4. Gofynnwn am 5 dewis mewn trefn blaenoriaeth ar gyfer y dewis rhydd gan mai hwn sy'n ffurfio'r colofnau opsiwn yn y pen draw. Cydnabyddwn na fydd y colofnau o bosib yn gwireddu dewisiadau pob un o'r dysgwyr ac felly mae meddwl am ambell bwnc wrth gefn yn ddefnyddiol.

I don't have access to the free choice Google Form

Following the English medium presentation the form was open to accept responses. The learner must log in to their school account in order to access the form.

What if I choose something I don't like?

There will be several discussions in the summer term to discuss choices so that learners can make well informed decisions about what they wish to study. By speaking to class teacher they will receive information about course content and the types of activities included within the course and so we are confident that the vast majority of learners will be happy with their choices in September.

How many subjects much I choose?

In addition to the core programme learners are expected to choose 3 subjects to study in KS4. We ask for 5 choices in the order of preference as part of the free choice as these are used to form the option columns. We appreciate that the columns may not be in line with every pupils first choice and so thinking of some back up subject is really useful.

D Y S G . . . D A W N . . . D Y F O D O L . . .

